# 4. Gweithdrefnau a chyfarfodydd cyrff llywodraethu

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am drefniant y corff llywodraethu, gan gynnwys:

A. Cadeiryddion ac is-gadeiryddion
B. Clerc y corff llywodraethu
C. Galw a threfnu cyfarfodydd o'r corff llywodraethu
D. Cofnodion a phapurau
E. Dirprwyo swyddogaethau
F. Pwyllgorau'r corff llywodraethu
G. Cyfyngiadau ar bwy sy'n cael cymryd rhan yn nhrafodion cyfarfodydd a phwyllgorau'r corff llywodraethu
H. Atal llywodraethwyr.

**Cefndir**

1. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ('Rheoliadau 2005') a Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2006 ('Rheoliadau 2006') yw'r rheoliadau y cyfeirir atynt yn y bennod hon, oni nodir fel arall.

2. Rhaid i gyrff llywodraethu gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ond gallant benderfynu cyfarfod yn amlach. Mater i bob corff llywodraethu yw cytuno pa mor aml y byddant yn cyfarfod, faint o'r gloch, ac ym mhle. Er mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hyn, mae rhai o reolau cyfarfodydd wedi'u nodi yn y rheoliadau.

3. Gall pob corff llywodraethu reoleiddio ei weithdrefnau ei hun, a rhai ei bwyllgorau a dirprwyo ei swyddogaethau. Wrth sefydlu pwyllgorau neu ddirprwyo swyddogaethau iddynt neu i unigolion, mae'n bwysig fod y corff llywodraethu'n pennu swyddogaeth a chyfrifoldebau disgwyliedig pob un.

4. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r corff llywodraethu lunio rheolau sefydlog i gofnodi'r manylion hyn pan nad ydynt wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth. Er hynny, ni ddylai rheolau sefydlog wrthdaro ag unrhyw beth yn offeryn llywodraethu'r ysgol, Rheoliadau 2005 nac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Dyma enghreifftiau o'r hyn y dylid ei gynnwys:

- cylch gorchwyl a swyddogaeth unrhyw bwyllgor neu unigolyn
- unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau a ddirprwywyd i bwyllgor neu unigolyn
- nifer yr aelodau a'r cworwm sydd eu hangen er mwyn i'r pwyllgor wneud ei waith (os yw'n wahanol)
- a fydd y pwyllgor yn cynnwys aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr, ac os felly, a fyddant yn cael pleidleisio.

## A. Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion:

### Ethol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion

1. Yn amodol ar Ran 7 o Reoliadau 2005, mae'n rhaid i gorff llywodraethu ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodau bob blwyddyn. Mater i'r corff llywodraethu yw cytuno ar y broses, ond mae'r rheoliadau'n mynnu bod unrhyw etholiad yn cael ei gynnal trwy bleidlais gyfrinachol.

2. Nid yw llywodraethwr (beth bynnag fo'i swyddogaeth) sy'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol neu sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn gymwys i gael ei ethol yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd corff llywodraethu.

3. Clerc y corff llywodraethu fydd y cadeirydd yn ystod unrhyw ran o'r cyfarfod lle mae'r cadeirydd yn cael ei ethol. Mae Rheoliad 42 o reoliadau 2005 yn pwysleisio'n glir na all y clerc fod yn llywodraethwr yn yr ysgol dan sylw; felly nid oes gan y clerc bleidlais (neu bleidlais fwrw yn achos pleidlais gyfartal) yn yr achos yma.

4. Bydd y sawl a gaiff ei ethol yn gadeirydd neu is-gadeirydd yn parhau yn eu swyddi tan y caiff eu holynwyr eu penodi o dan reoliad 39 o Reoliadau 2005, er y gallant ymddiswyddo unrhyw bryd trwy roi rhybudd ysgrifenedig ''r clerc neu eu bod yn cael eu diswyddo yn unol â'r broses a ddisgrifir isod.

5. Bydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn gorfod gadael ei swydd os yw'n rhoi'r gorau i fod yn llywodraethwr neu'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol.

### Diswyddo cadeirydd neu is-gadeirydd

6. Bydd y cadeirydd yn cael ei ddisodli os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu dewis llywodraethwyr ychwanegol a phenodi un ohonynt yn gadeirydd o dan adran 13 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Gall hyn ddigwydd os oes angen cyflwyno mesurau arbennig neu wneud gwelliant sylweddol i ysgol (gweler pennod 24 hefyd, Ysgolion sy'n peri pryder a Byrddau Gweithredol Interim). Os bydd llywodraethwr newydd yn cael ei benodi fel hyn, ni ellir ei ddiswyddo yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 7 ac 8 isod.

7. Bydd corff llywodraethu'n gallu diswyddo cadeirydd neu is-gadeirydd o'i swydd trwy gynnig ffurfiol (gweler rheoliad 41 o Reoliadau 2005). Rhaid i'r cynnig hwn fod yn eitem ar yr agenda mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu, a rhaid dosbarthu'r agenda i aelodau'r corff llywodraethu o leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod.

8. Rhaid i'r llywodraethwr/llywodraethwyr nodi'r rhesymau dros ddiswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn y cyfarfod, a rhaid rhoi cyfle i'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd wneud datganiad cyn gadael y cyfarfod. Bydd y llywodraethwyr sy'n weddill yn pleidleisio ar y mater wedyn.

### Dirprwyo swyddogaethau i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn argyfwng

9. Fel arfer, dim ond yng nghyfarfod y corff llywodraethu y dylid gwneud penderfyniadau, neu gan bwyllgor a ddirprwywyd i wneud hynny. Mewn amgylchiadau prin fodd bynnag, mae gan y cadeirydd neu'r is-gadeirydd y grym i gyflawni rhai o swyddogaethau'r corff llywodraethu os bydd unrhyw oedi o ran cyflawni swyddogaethau yn debygol o gael

effaith andwyol ar fuddiannau'r ysgol, unrhyw ddisgybl yn yr ysgol neu ei rieni, neu rywun sy'n gweithio yn yr ysgol. Os bydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd dan y pŵer hwn, rhaid dweud wrth y corff llywodraethu cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl.

10. Ystyr oedi yn y cyd-destun hwn, yw oedi am gyfnod sy'n ymestyn y tu hwnt i'r amser y byddai'n ymarferol cynnal cyfarfod brys o'r corff llywodraethu, neu o bwyllgor y dirprwywyd iddo y pŵer i drafod y mater.

11. Nid yw'r pŵer hwn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â newid neu gau ysgolion, newid categori'r ysgol, newid cyfansoddiad neu aelodaeth corff llywodraethu, newid enw ysgol, cymeradwyo'r gyllideb, polisïau disgyblaeth disgyblion a staff, trefniadau derbyn, penodi'r pennaeth a dirprwy bennaeth a materion penodol yn ymwneud â phresenoldeb.

## B. Clerc y corff llywodraethu

### Swyddogaeth y clerc

1. Rhaid i glerc corff llywodraethu weithio'n effeithiol gyda chadeirydd y llywodraethwyr, llywodraethwyr eraill a'r pennaeth i gefnogi'r corff llywodraethu. Dylai'r clerc fod â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i allu rhoi cyngor ac arweiniad diduedd i'r corff llywodraethu ar faterion cyfansoddiadol a threfniadol, dyletswyddau a phwerau. Mae'r clerc yn atebol i'r corff llywodraethu.

2. Mae rhai Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaeth clercio i gyrff llywodraethu trwy gytundeb lefel gwasanaeth a rhaid iddynt ddarparu sesiynau hyfforddi i rai sydd wedi'u penodi'n glercod gan gyrff llywodraethu unigol.

### Penodi a diswyddo clerc y corff llywodraethu

3. Rhaid i gorff llywodraethu benodi clerc i'r corff llywodraethu.

4. Ni chaiff llywodraethwr, aelod nad yw'n llywodraethwr o unrhyw un o bwyllgorau'r corff llywodraethu, na'r pennaeth yr ysgol fod yn glerc y corff llywodraethu.

5. Er hynny, os bydd y clerc yn methu â mynychu cyfarfod, gall y llywodraethwyr sy'n bresennol ddewis aelod o'r corff llywodraethu (ond nid y pennaeth) i weithredu fel clerc y cyfarfod hwnnw.

6. Gall y corff llywodraethu ddiswyddo clerc.

7. Os nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig ar unrhyw adeg, gall yr ALl ddiswyddo clerc a phenodi dirprwy, ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn trafod gyda'r corff llywodraethu cyn gwneud hynny.

### Swyddogaethau'r clerc i'r corff llywodraethu

8. Cyfrifoldeb clerc y corff llywodraethu yw:

- ymgynnull cyfarfod o'r corff llywodraethu yn unol â'r rheoliadau
- mynychu cyfarfod y corff llywodraethu a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cymryd
- cadw cofrestr o aelodau'r corff llywodraethu ac adrodd am unrhyw leoedd gwag wrth y corff llywodraethu a'r cyrff penodi
- cynnal cofrestr presenoldeb ac adrodd am unrhyw ddiffyg presenoldeb wrth y corff llywodraethu
- rhoi a derbyn hysbysiadau yn unol â'r rheoliadau perthnasol
- adrodd wrth y corff llywodraethu, fel bo'r angen, ynghylch cyflawni ei swyddogaethau
- cyflawni unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan y corff llywodraethu o bryd i'w gilydd
- rhoi cyngor i'r corff llywodraethu ynglŷn â'i swyddogaethau a'i weithdrefnau, os oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol.

I gael mwy o fanylion am swyddogaethau'r clerc, gweler rheoliad 43 o Reoliadau 2005.

# C. Galw a threfnu cyfarfodydd o'r corff llywodraethu

## Galw cyfarfodydd

1. Y corff llywodraethu sy'n gwybod orau pa mor aml ac am ba mor hir y mae angen iddo gyfarfod er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, heblaw bod rhaid i bob corff llywodraethu gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, hynny yw, o leiaf dri chyfarfod yn ystod blwyddyn ysgol. Mae rhai cyrff llywodraethu yn cyfarfod yn amlach, a mater i bob corff unigol yw hyn.

2. Y clerc sy'n galw cyfarfodydd, yn unol â chyfarwyddiadau'r corff llywodraethu a'r cadeirydd, cyn belled nad yw cyfarwyddiadau'r cadeirydd yn wahanol i rai y corff llywodraethu. Gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithiol gan ddefnyddio technoleg fideogynadledda neu delegynadledda, cyhyd â bod yr aelodau'n cytuno. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell defnyddio technoleg fideogynadledda ar gyfer cyfarfodydd rhithiol pan fo modd.

3. Gall unrhyw dri aelod o'r corff llywodraethu alw cyfarfod trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r clerc gan gynnwys crynodeb o'r trafodion. Rhaid i'r clerc alw cyfarfod cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

4. Mae'n rhaid i'r clerc roi rhybudd ysgrifenedig o'r cyfarfod i bob llywodraethwr, y pennaeth (boed yn llywodraethwr neu beidio) a'r ALI, yn ogystal â chopi o'r agenda ac unrhyw adroddiadau neu bapurau eraill i'w trafod yn y cyfarfod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lywodraethwr a all fod wedi'i atal o dan reoliad 49 o Reoliadau 2005.

5. Os yw'r cadeirydd (neu'r is-gadeirydd os yw'n absennol) o'r farn bod angen ystyried materion ar frys, gallai bennu cyfnod hysbysu byrrach cyn belled ag y bo'r rhybudd ysgrifenedig yn nodi hynny.

6. Dylid rhoi o leiaf saith diwrnod o rybudd ar gyfer cyfarfod os yw'r materion i'w trafod yn cynnwys diswyddo cadeirydd neu is-gadeirydd o'i swydd, atal unrhyw lywodraethwr, diswyddo llywodraethwr cymunedol neu noddwr-lywodraethwr, neu gynnig i gau'r ysgol. Nid yw pŵer y cadeirydd i roi cyfarwyddyd i gynnal cyfarfod o fewn cyfnod byrrach yn berthnasol yma.

7. Nid yw cyfarfod o'r corff llywodraethu na'i drafodion yn annilys oherwydd nad yw rhywun wedi cael rhybudd ysgrifenedig o'r cyfarfod neu gopi o'r agenda.

## Cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyrff llywodraethu

8. Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r corff llywodraethu llawn ac ar gyfer cynnal unrhyw bleidlais, yw hanner (wedi'i dalgrynnu i rif cyfan) holl aelodau'r corff llywodraethu, ac eithrio disgybl-lywodraethwyr cyswllt, lleoedd gwag ac unrhyw lywodraethwr sydd wedi'i atal. Er enghraifft, os oes 15 o aelodau llawn a bod dau le gwag, yna'r cworwm ar gyfer cyfarfod y corff llywodraethu yw saith (hanner 13 wedi'i dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf).

## Pleidleisio

9. Rhaid i bob cwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu gael ei bennu drwy fwyafrif o bleidleisiau'r llywodraethwyr sy'n bresennol ac sy'n gymwys i bleidleisio.

10. Nid yw disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn gymwys i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu.

11. Os oes nifer cyfartal o bleidleisiau, y cadeirydd (neu'r is-gadeirydd, heb gynnwys clerc wrth ethol cadeirydd) sydd â'r ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

12. Ni fydd unrhyw benderfyniad i gau ysgol yn effeithiol hyd nes y caiff ei gadarnhau mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu, 28 diwrnod o leiaf ar ôl y cyfarfod lle gwnaed y penderfyniad gwreiddiol. Rhaid iddi fod yn eitem ar agenda'r ddau gyfarfod, a rhaid rhoi saith diwrnod o rybudd ymlaen llaw.

13. Nid yw trafodion corff llywodraethu yn annilys oherwydd lle gwag, unrhyw ddiffyg wrth benodi neu ethol llywodraethwr neu gadeirydd neu is-gadeirydd, neu os oes gan gorff llywodraethu fwy o aelodau o gategori arbennig nag y darperir ar eu cyfer gan yr offeryn llywodraethu.

## Pwy sy'n cael mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu

14. Mae gan lywodraethwyr, y pennaeth a'r clerc, yn ogystal â disgybl-lywodraethwyr cyswllt, pan fo hynny'n berthnasol, yr hawl i fynychu cyfarfodydd corff llywodraethu, (yn amodol ar rai eithriadau a nodir yn fanylach yn y bennod hon). Hefyd, gall corff llywodraethu ganiatáu unrhyw un arall i fynychu'r cyfarfodydd. Gall disgybl-lywodraethwyr cyswllt ac aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr gael eu gwahardd o unrhyw ran o'r cyfarfod sy'n ymwneud â disgybl unigol neu aelod o'r staff, materion cyllideb, cyflogau neu ymrwymiadau ariannol eraill y corff llywodraethu, ethol a diswyddo llywodraethwyr, dogfen ymddiriedolaeth yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ac unrhyw fater arall y dylid ei drin yn gyfrinachol ym marn y corff llywodraethu.

## D. Cofnodion a phapurau

### Cadw cofnodion

1. Mae darpariaethau sy'n ymwneud â chofnodion a phapurau yn rheoliadau 47 a 48 o Reoliadau 2005 wedi'u diwygio gan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020. Rhaid i'r clerc (neu'r sawl sy'n gweithredu fel clerc yn ei absenoldeb) sicrhau bod cofnodion yn cael eu creu, eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu a'u llofnodi gan gadeirydd y cyfarfod nesaf. Rhaid i'r cofnodion gofnodi enwau llywodraethwyr a phawb arall sy'n bresennol yn y cyfarfod.

2. Caniateir cadw'r cofnodion ar bapur neu'n electronig. Pan fo'r cofnodion yn cael eu cadw'n electronig, caniateir eu llofnodi'r electronig hefyd.

3. Rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu copi o gofnodion drafft/wedi'u llofnodi o gyfarfod penodol i'r Awdurdod Lleol sy'n eu cynnal, yn ôl y gofyn.

### Cyhoeddi cofnodion

4. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod copi o'r agenda, cofnodion wedi'u llofnodi, adroddiadau neu bapurau a drafodwyd mewn cyfarfod, a'r cofnodion drafft, ar gael yn yr ysgol i bawb sydd â diddordeb ynddynt, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl – os byddant wedi'u cymeradwyo gan y cadeirydd.

5. Nid oes rhaid i wybodaeth am rywun a enwir neu unrhyw fater arall sy'n gyfrinachol ym marn y corff llywodraethu, fod ar gael i'w darllen.

6. Caiff y corff llywodraethu sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael ar gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau o dan y Ddeddf honno. Bydd y corff llywodraethu hefyd yn gorfod sicrhau bod pob darn o ddata personol yn cael ei drin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ico.org.uk.

# E. Dirprwyo swyddogaethau

### Dirprwyo swyddogaethau

1. Caiff y corff llywodraethu ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau statudol i bwyllgor, unrhyw lywodraethwr neu bennaeth yn amodol ar gyfyngiadau penodol (gweler isod, neu am fanylion llawn, gweler Rhannau 8 a 9 o Reoliadau 2005). Rhaid i'r corff llywodraethu adolygu hyn bob blwyddyn.

2. Er mai mater i bob corff llywodraethu yw penderfynu sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau, **mae'n rhaid** cyfeirio rhai meysydd polisi i bwyllgor a ddirprwywyd â'r grym i wneud penderfyniad ar ran y corff llywodraethu.

3. O dan reoliadau 55, 56 a 57 o Reoliadau 2005, mae'n ofynnol i bob corff llywodraethu sefydlu'r pwyllgorau canlynol:

- materion disgyblu a diswyddo staff, ac apelau disgyblu a diswyddo staff
- gwrandawiadau disgyblu a gwahardd disgyblion
- gwrandawiadau derbyn (lle mai'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn).

4. Mae Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 yn gofyn i gyrff llywodraethu benodi o leiaf dau lywodraethwr i werthuso'r pennaeth. Bydd y panel arfarnu hefyd yn cynnwys uchafswm o ddau arfarnwr a benodir gan yr awdurdod lleol. Mewn ysgol â chymeriad crefyddol neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir heb gymeriad crefyddol, rhaid penodi o leiaf un llywodraethwr sefydledig ar y panel hwn. Ni ellir penodi llywodraethwr sy'n athro neu'n aelod arall o staff yr Ysgol fel arfarnwr.

5. Os bydd rhywun yn apelio yn erbyn penderfyniad y panel, rhaid i'r cadeirydd (nad oedd yn rhan o'r gwaith gwerthuso) neu banel o ddau lywodraethwr arall glywed yr apêl honno.

6. Ac eithrio'r uchod, os yw corff llywodraethu wedi penderfynu dirprwyo swyddogaethau, nid yw hyn yn ei rwystro rhag defnyddio'r swyddogaethau hynny os yw'n penderfynu gwneud hynny, yn amodol ar rai eithriadau. Er enghraifft, gall corff llywodraethu benderfynu symud arian o un pennawd cyllideb i un arall os bydd amgylchiadau'n newid, hyd yn oed os yw'r swyddogaeth o fonitro'r gyllideb wedi'i dirprwyo i bwyllgor.

7. Mae gan gorff llywodraethu gyfrifoldeb dros reoleiddio ymddygiad a disgyblaeth mewn perthynas â staff yr ysgol. Rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu gweithdrefnau ar gyfer rheoleiddio ymddygiad a disgyblaeth staff yr ysgol, ynghyd â gweithdrefn gwyno ar gyfer staff a gweithdrefn ar gyfer delio â diffyg gallu o ran staff yn yr ysgol. Nid yw'r Rheoliadau yn gosod gofyniad penodol i sefydlu pwyllgorau i ymdrin â materion o'r fath, fel yn achos y materion a nodir ym mharagraff 3 uchod. Fodd bynnag, pe bai materion o'r fath yn cael eu hystyried gan y corff llywodraethu llawn, ni fyddai lle i apelio. Felly, mae dirprwyo materion o'r fath i'w clywed gan bwyllgor, yn y lle cyntaf, yn arfer dda. Caiff unrhyw apêl sy'n deillio o benderfyniad y pwyllgor ei gyflwyno gerbron gweddill aelodau'r corff llywodraethu wedyn.

8. Gall corff llywodraethu hefyd ddewis sefydlu pwyllgorau i gyflawni swyddogaethau eraill, fel cyllid, materion personél/staffio, y cwricwlwm, adeiladau ac ati. Gall y corff llywodraethu ddirprwyo neu beidio â dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau i

bwyllgorau o’r fath.

9. Mae’n bwysig bod gan unrhyw bwyllgorau swyddogaethau a chylch gorchwyl clir. Gweler rhan nesaf y bennod hon dan y teitl ‘Pwyllgorau’r corff llywodraethu’.

10. Y corff llywodraethu fydd yn parhau’n atebol am unrhyw benderfyniadau sy’n cael eu cymryd, gan gynnwys rhai sy’n ymwneud â’r swyddogaethau a ddirprwywyd i bwyllgor neu unigolion.

**Cyfyngiadau ar ddirprwyo a phwyllgorau penodol**

11. Ni chaiff y corff llywodraethu ddirprwyo unrhyw swyddogaethau sy’n ymwneud â:

- chategorïau llywodraethwyr fel y nodir yn Rhan 2 y Rheoliadau
- cyfansoddiad y corff llywodraethu
- diswyddo llywodraethwyr
- offeryn llywodraethu
- ethol a diswyddo cadeirydd ac is-gadeirydd
- penodi a diswyddo clerc y corff llywodraethu
- atal llywodraethwyr
- dirprwyo swyddogaethau
- sefydlu pwyllgorau.

Ni chaiff corff llywodraethu ddirprwyo ei swyddogaethau sy’n ymwneud â phenodi pennaeth a dirprwy bennaeth chwaith, o dan Reoliadau 2006.

12. Gellir dirprwyo rhai swyddogaethau i bwyllgor ond nid i unigolyn, fel a ganlyn:

- addasu, terfynu neu newid categori ysgolion a gynhelir
- cymeradwyo cynllun cyllideb ffurfiol cyntaf y flwyddyn ariannol
- polisïau disgyblu’r ysgol

- trefniadau derbyn, nifer y rhai sy’n cael eu derbyn a phenderfyniad trefniadau apêl gan y corff llywodraethu o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 targedau a gorchmynion mynychu ysgolion
- apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i dderbyn plentyn ac atgyfeiriad i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chyfarwyddyd a wneir gan ALl i dderbyn plentyn.

**Adrodd wrth y corff llywodraethu yn sgil cyflawni swyddogaethau dirprwyedig**

13. Rhaid i unrhyw unigolyn neu bwyllgor y dirprwywyd swyddogaeth corff llywodraethu iddo, ddweud wrth y corff llywodraethu pa gamau a gymerwyd neu benderfyniad a wnaed ynglŷn â’r swyddogaeth honno. Mae hyn yn cynnwys pwyllgor, y pennaeth a/neu’r cadeirydd neu is-gadeirydd.

## F. Pwyllgorau'r corff llywodraethu

### Cymhwyso'r rhan hon o'r Rheoliadau i swyddogaethau staffio

1. Nid yw'r adran hon yn berthnasol i'r paneli dewis a sefydlwyd gan gorff llywodraethu i ymdrin â materion penodi pennaeth a dirprwy bennaeth neu swyddogaethau sy'n effeithio ar aelodau unigol o staff, yn hytrach na staff yr ysgol gyfan. Mae pennod 10, 'Staffio', yn trin a thrafod corff llywodraethu yn dirprwyo swyddogaethau penodi a diswyddo staff, cwynion staff, gallu, ymddygiad, disgyblu a materion atal.

### Sefydlu pwyllgorau

2. Mae'n rhaid i gorff llywodraethu benderfynu beth fydd cyfansoddiad, aelodaeth a chylch gorchwyl unrhyw bwyllgor y mae'n penderfynu eu sefydlu, a'u hadolygu bob blwyddyn. Y corff llywodraethu sy'n dal yn gyfrifol am bolisïau a chamau gweithredu ei holl bwyllgorau, ac felly mae'n bwysig bod gan bwyllgorau swyddogaethau a chylch gorchwyl clir.

3. Rhaid i bob pwyllgor gael cadeirydd, sydd naill ai wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu ei ethol gan y pwyllgor. Gall corff llywodraethu ddiswyddo cadeirydd y pwyllgor unrhyw bryd.

4. Os yw'r cadeirydd yn absennol o gyfarfod pwyllgor, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol ethol rhywun i gymryd ei le fel cadeirydd y cyfarfod hwnnw.

5. Ni chaiff unrhyw un a gyflogir i weithio yn yr ysgol neu un o'r disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol fod yn gadeirydd pwyllgor.

6. Gall aelodau'r pwyllgor gynnwys disgybl-lywodraethwyr cyswllt a phobl nad ydynt yn llywodraethwyr. Er hynny, rhaid i'r rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgor fod yn llywodraethwyr. Y corff llywodraethu sy'n cael penderfynu faint o aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr sy'n cael pleidleisio.

7. Ni fydd unrhyw swydd wag neu ddiffygion o ran penodi aelodau'r pwyllgor yn golygu fod trafodion y pwyllgor yn annilys.

### Clercod pwyllgorau

8. Rhaid i gorff llywodraethu benodi clerc i bob pwyllgor a sefydlir ym meysydd disgyblu a diswyddo staff, cwynion a disgyblu a gwahardd disgyblion. Gall hefyd benodi clerc i unrhyw bwyllgor arall y mae'n ei sefydlu, ond nid yw hyn yn cynnwys grwpiau eraill, fel gweithgorau a sefydlwyd at ddibenion penodol.

9. Ni ellir penodi pennaeth yr ysgol a/neu unrhyw ddisgybl-lywodraethwr cyswllt fel clerc y pwyllgor.

10. Os nad yw'r clerc yn mynychu cyfarfod, yna gall y llywodraethwyr sy'n bresennol benodi aelod o'r pwyllgor (heblaw y pennaeth) i fod yn glerc ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

11. Gall corff llywodraethu ddiswyddo clerc o'r pwyllgor ar unrhyw adeg.

12. Cyfrifoldeb clerc y pwyllgor yw:

- galw cyfarfodydd y pwyllgor
- mynychu cyfarfodydd y pwyllgor a sicrhau bod rhywun yn cymryd cofnodion
- cyflawni unrhyw swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â'r pwyllgor hwnnw benderfynir gan y corff llywodraethu o bryd i'w gilydd.

### Hawl pobl i fynychu cyfarfodydd

13. Mae gan aelodau'r pwyllgorau (cyn belled nad ydynt wedi'u hatal o'r corff llywodraethu), y pennaeth (boed yn aelod o'r pwyllgor neu'r corff llywodraethu ai peidio) a chlerc y pwyllgor yr hawl i fynychu cyfarfod y pwyllgor. Mae hwn yn amodol ar unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sydd gan aelod o'r pwyllgor ar fater penodol. Hefyd, gall y corff llywodraethu neu'r pwyllgor ganiatáu i unrhyw un arall fynychu eu cyfarfodydd.

14. Gall pwyllgor wahardd aelod o'r pwyllgor nad yw'n llywodraethwr, o unrhyw ran o'r cyfarfod sy'n ymwneud â disgybl unigol neu aelod o'r staff.

15. Ni chaiff y pennaeth fod yn aelod o bwyllgor a sefydlwyd i drafod materion disgyblu a diswyddo staff, diswyddo a gwahardd disgyblion, neu banel dewis a alwyd ynghyd i ystyried penodi olynydd iddo.

### Cyfarfodydd y pwyllgorau

16. Clerc y pwyllgor fydd yn galw cyfarfodydd y pwyllgor, a bydd yn dilyn cyfarwyddiadau'r corff llywodraethu a chadeirydd y pwyllgor, cyn belled nad yw cyfarwyddyd y cadeirydd yn gwrthdaro â rhai y corff llywodraethu.

17. Os nad yw'r pwyllgor wedi penodi clerc, dylai'r cadeirydd alw cyfarfodydd a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan y corff llywodraethu.

### Rhybudd o gyfarfodydd y pwyllgor

18. Rhaid i'r clerc roi rhybudd ysgrifenedig o'r cyfarfod i bob aelod o'r pwyllgor (boed yn llywodraethwr ai peidio) a'r pennaeth (boed yn aelod o'r pwyllgor ai peidio) ynghyd â chopi o'r agenda ac unrhyw bapurau i'w trafod yn y cyfarfod o leiaf bum diwrnod gwaith llawn cyn y cyfarfod.

19. Os yw cadeirydd y pwyllgor o'r farn bod angen ystyried materion ar frys, gall ef neu hi bennu cyfnod rhybudd byrrach. Dylai'r rhybudd ysgrifenedig o'r cyfarfod nodi hyn, a gellir cyflwyno agendâu, adroddiadau ac unrhyw bapurau eraill i'w hystyried ar fyr rybudd.

**Cworwm a phleidleisio**

20. Y cworwm ar gyfer cynnal cyfarfod o’r corff llywodraethu a phleidleisio ar unrhyw fater yw hanner (wedi’i dalgrynnu i rif cyfan) yr aelodau, ac eithrio seddi gwag. (Nid yw hyn yn cynnwys pwyllgorau disgyblu a diswyddo staff a phwyllgorau apêl disgyblu a diswyddo staff, pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion, pwyllgor derbyn, panel gwerthuso perfformiad y pennaeth a phanel apêl gwerthuso perfformiad pennaeth. Am reoliadau yn ymwneud â'r rhain, gweler pennod 10, Staffio).

21. Rhaid i bob cwestiwn a benderfynir yng nghyfarfod y pwyllgor gael ei bennu trwy bleidlais y mwyafrif o aelodau’r pwyllgor sy’n bresennol ac sy’n pleidleisio.

22. Ni ellir cynnal pleidlais mewn cyfarfod os nad yw mwyafrif aelodau’r pwyllgor yn bresennol.

23. Os bydd pleidlais gyfartal, yna bydd gan y cadeirydd (neu’r sawl sy’n gweithredu fel cadeirydd), ail bleidlais neu bleidlais fwrw, cyn belled â’i fod yn llywodraethwr.

**Aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr**

24. Caniateir penodi aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr i bwyllgorau ac, yn ddarostyngedig i baragraff 25 isod, y corff llywodraethu sydd i benderfynu a ddylent gael pleidlais ai peidio. Ni ellir rhoi hawliau pleidleisio i aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr os nad ydynt yn 18 oed wrth gael eu penodi, heblaw am ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt, a all fod o dan 18 oed. Mae rheoliad 60(9) o Reoliadau 2005 yn rhoi’r hawl i gorff llywodraethu drin disgybl-lywodraethwyr cyswllt fel llywodraethwyr at ddibenion y cworwm a phleidleisio).

Rhaid i bwyllgor disgyblu staff gynnwys o leiaf tri llywodraethwr ond, os gwneir honiad yn erbyn aelod o staff yn dweud bod yr aelod hwnnw o staff wedi achosi niwed (hy, cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol) i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, rhaid i’r pwyllgor gynnwys o leiaf dau lywodraethwr a pherson annibynnol nad yw’n llywodraethwr.

Rhaid i bwyllgor apêl disgyblu gynnwys o leiaf yr un nifer o lywodraethwyr â’r pwyllgor disgyblu staff y mae ei benderfyniad yn ddarostyngedig i apêl a, phan fo’r honiadau a wneir yn erbyn aelod o staff yn cynnwys materion sy’n ymwneud â diogelu plant, rhaid i’r pwyllgor gynnwys person annibynnol nad oedd yn ymwneud â phenderfyniad y pwyllgor disgyblu staff.

Nid oes gan unrhyw aelod o’r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff na’r pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo nad yw’n llywodraethwr yr hawl i bleidleisio yn unrhyw un o drafodaethau’r pwyllgor dan sylw, ac eithrio aelod annibynnol pob pwyllgor a benodir uchod.

Ni chaiff pennaeth yr ysgol na disgybl-lywodraethwr cyswllt fod yn aelod o’r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff na’r pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo.

25. Ni chaiff aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr sy'n rhan o bwyllgor bleidleisio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- materion sy'n rhaid eu hystyried gan y corff llywodraethu llawn, hynny yw, materion na ellir eu dirprwyo i bwyllgor;

- cyfarfodydd y panel disgyblu a gwahardd disgyblion
- cyfarfodydd y paneli derbyn (lle mai'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn)
- paneli dewis pennaeth a dirprwy bennaeth (er y gall aelod nad yw'n llywodraethwr gymryd rhan mewn trafodaethau, ni all bleidleisio ar benderfyniadau oni bai bod y corff llywodraethu yn penderfynu y caiff wneud hynny, ar yr amod bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn llywodraethwyr).

**Cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau**

26. Rhaid i gofnodion pwyllgor gael eu trin yn yr un ffordd â chofnodion cyfarfodydd cyrff llywodraethu, gweler adran D.

## G. Cyfyngiadau ar bwy sy'n cael cymryd rhan yn nhrafodion cyfarfodydd a phwyllgorau'r corff llywodraethu

1. Nod yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar bwy sy'n cael cymryd rhan yn nhrafodion corff llywodraethu yw gwarchod gwrthrychedd corff llywodraethu a'i aelodau, a sicrhau nad oes perygl i neb herio ei weithdrefnau neu ei benderfyniadau ar sail bod yn ddiduedd.

2. Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

- os oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau unrhyw berson a buddiannau corff llywodraethu, yna dylai'r sawl dan sylw ddatgelu ei fuddiannau, gadael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio
- mewn sefyllfa lle mae unrhyw amheuaeth o gwbl ynghylch gallu'r unigolyn i fod yn ddiduedd, dylai ddatgelu ei fuddiannau, gadael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol a'r gofynion ar gyfer gwrandawiad teg;
- os oes gan lywodraethwr neu aelod nad yw'n llywodraethwr fuddiant ariannol mewn unrhyw fater, dylai ddatgelu hynny, gadael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio

Enghraifft o achosion lle mae'n rhaid rhoi gwrandawiad teg yn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â disgyblu staff neu ddisgybl, neu faterion derbyn disgyblion. Nid yw'r cyfyngiadau ar bersonau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisiau yn rhwystro corff llywodraethu neu bwyllgor rhag caniatáu rhywun sy'n gallu cynnig tystiolaeth berthnasol i achos, rhag gwneud hynny.

3. Mae darpariaethau mwy penodol ar y cyfyngiadau o ran cymryd rhan a natur buddiannau ariannol wedi'u nodi yn Rhan 10 o Reoliadau 2005 ac Atodlen 7 iddi.

4. Nid oes rhaid i glerc y corff llywodraethu adael cyfarfod o dan y Rheoliadau hyn oni bai fod y cyfarfod yn trafod ei benodiad, ei dâl neu achos disgyblu yn ei erbyn. Os yw'r llywodraethwr yn gweithredu dros dro fel clerc y cyfarfod, fodd bynnag, a bod y rheoliadau yn berthnasol iddo, ni chaiff gymryd rhan mewn unrhyw fodd ond fel clerc.

5. Os oes unrhyw anghydfod ynghylch a ddylai rhywun adael y cyfarfod, yna rhaid i'r llywodraethwyr eraill sy'n bresennol gytuno ar hyn.

6. Mae buddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu unrhyw fater arall yn cynnwys achosion:

- pan fo rhywun wedi ei enwebu i swydd gan y sawl y gwnaed y contract ag ef neu y bwriedir gwneud y contract ag ef
- pan fo'r llywodraethwr, neu aelod o'r pwyllgor, yn ŵr/gwraig neu'n bartner i'r sawl y gwnaed y contract ag ef neu y bwriedir gwneud y contract ag ef
- pan fo perthynas neu rywun sy'n llywodraethwr neu'n aelod o'r pwyllgor yn byw gyda'r sawl sydd â buddiant mewn contract neu gontract arfaethedig gyda'r corff llywodraethu.

7. Nid yw hyn yn berthnasol o safbwynt buddiant ariannol rhywun perthnasol:

- lle nad yw'r buddiant yn fwy na buddiant y mwyafrif o'r rhai sy'n gweithio yn yr ysgol
- os yw'r buddiant ariannol ond yn sgil y ffaith iddo gael ei enwebu neu ei benodi i gorff cyhoeddus, neu ei fod yn gysylltiedig â chorff cyhoeddus mewn unrhyw fodd
- os yw'r buddiant ariannol ond yn sgil y ffaith ei fod yn aelod o gorfforaeth neu gorff arall os nad oes ganddo unrhyw fuddiant ariannol yn y corff hwnnw.

8. Nid yw llywodraethwr â buddiant ariannol wedi'i wahardd rhag:

- ystyried a phleidleisio ar gynigion i gymryd yswiriant atebolrwydd neu gael a thalu am yswiriant o'r fath
- ystyried a phleidleisio ar unrhyw gynnig am gynllun lwfansau llywodraethwyr (yn unol â Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005) yn gyffredinol. Er hynny, rhaid i lywodraethwr adael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio os yn trafod talu lwfans neu daliad penodol iddo fel unigolyn.

9. Dylai llywodraethwr neu'r clerc adael cyfarfod os ystyrir bod ei fuddiannau mewn mater i'w drafod yn gwrthdaro â buddiannau'r corff llywodraethu. Byddai achosion o'r fath yn cynnwys:

- ei benodiad, ei ailbenodiad, ei atal neu ei ddiswyddiad fel aelod o'r corff llywodraethu neu bwyllgor
- ei benodiad neu ei ailbenodiad, ei atal neu ei ddiswyddiad fel clerc, cadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu neu fel clerc neu gadeirydd pwyllgor
- os yw'n noddwr-lywodraethwr, ac mai'r pwnc trafod yw unrhyw ddarpariaeth yn yr offeryn llywodraethu o ran enwebu noddwr-lywodraethwyr
- os yw'r llywodraethwr wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol, ac mai'r pwnc trafod yw cyflog neu werthuso unrhyw aelod arall o'r staff
- os yw'r pennaeth yn bresennol, ac mai'r pwnc trafod yw cyflog neu berfformiad y pennaeth
- os yw'r unigolyn wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol, ac mai'r pwnc trafod yw penodi olynydd.

10. Ni ddylai'r ffaith fod rhywun yn llywodraethwr neu'n aelod o bwyllgor corff llywodraethu mewn mwy nag un ysgol, ynddi ei hun, gael ei ystyried yn achos o wrthdaro buddiannau.

## H. Atal llywodraethwyr

1. O dan reoliad 49 o Reoliadau 2005, gall corff llywodraethu benderfynu atal llywodraethwr o'i holl gyfarfodydd neu bwyllgorau, neu o rai ohonynt, am gyfnod penodol o hyd at chwe mis, ar sail un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

- mae'r llywodraethwr wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol ac mae'n destun trefniadau disgyblu yn ymwneud â'i swydd
- mae'r llywodraethwr yn destun achos llys neu dribiwnlys, a gall canlyniadau hynny olygu y byddai'n cael ei anghymwyso rhag parhau i ddal swydd llywodraethwr
- mae'r llywodraethwr wedi ymddwyn mewn modd sy'n anghyson ag ethos neu gymeriad crefyddol yr ysgol, ac yn debygol o ddwyn anfri ar y corff llywodraethu
- mae'r llywodraethwr wedi torri ei ddyletswydd o gyfrinachedd i'r ysgol neu unrhyw aelod o'r staff neu ddisgyblion yr ysgol.

2. Rhaid cynnwys unrhyw gynnig i atal llywodraethwr fel eitem ar yr agenda, a rhaid rhoi o leiaf saith diwrnod o rybudd am hyn. Mae'n rhaid i'r llywodraethwr/wyr sy'n cynnig atal nodi eu rhesymau am hyn, cyn pleidleisio ar y mater. Rhaid i'r llywodraethwr sy'n destun y cynnig, gael cyfle i ymateb mewn datganiad cyn gadael y cyfarfod. Dim ond wedyn y dylid cynnal pleidlais.

3. Dylai'r corff llywodraethu ond atal rhywun fel y cam olaf posibl, ar ôl ceisio datrys unrhyw anawsterau neu anghydfodau mewn ffordd fwy adeiladol.

4. Rhaid i lywodraethwr sydd wedi'i ddiswyddo gael rhybudd o unrhyw gyfarfodydd, a rhaid anfon agendâu, adroddiadau a phapurau unrhyw gyfarfodydd ato yn ystod ei ddiswyddiad. Dylai hefyd gael cyfle i fynychu cyfarfod o'r corff llywodraethu sy'n trafod ei atal.

5. Gall corff llywodraethu atal llywodraethwr am gyfnodau pellach o hyd at chwe mis, ar yr un sail neu sail wahanol i'r ataliad gwreiddiol. Dylid dilyn yr un broses benodedig yr un fath. Os oes angen cyfnod atal pellach ar yr un sail â'r rheswm gwreiddiol dros atal, dylai'r cyfnodau gydredeg.

6. Ni ellir anghymwyso llywodraethwr o'i swydd am fethu â mynychu cyfarfodydd yn ystod y cyfnod atal.

## Y Gyfraith

Deddf Addysg 1996
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Addysg 2002, yn enwedig adrannau 19, 21, 23, 29, 30, 32, 33, 35 a 99-101 ac Atodlenni 1 a 3
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gorchwyl) (Cymru) 2000
Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005
Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006